TAFLEN GWYBODAETH

Sgwter symudedd

Ein hamcan:

Amcan Cartrefi Cymunedol Gwynedd (CCG) yw rhoi cyngor i bob tenant cyn iddynt brynu neu logi sgwter symudedd. Rhaid cael caniatâd ysgrifenedig gan CCG i storio a gwefru sgwter symudedd mewn tai gwarchod neu fflatiau cyffredin (sy'n rhannu ardaloedd cyffredin a chynteddau).

Mathau gwahanol o sgwteri symudedd / cymorthyddion symudedd sydd ar gael:

DOSBARTH 1 yw cadeiriau olwyn maniwal ac felly ni chant eu hystyried fel sgwter symudedd

DOSBARTH 2 sy'n cael eu galw yn gadeiriau olwyn gyda phŵer, neu sgwter symudedd wedi ei dylunio gyda 3 neu 4 olwyn i ddefnyddio ar balmentydd sy'n teithio ar gyflymder o 4 milltir yr awr.

DOSBARTH 3 yn sgwter a 4 olwyn gyda chyflymder uchaf o 8 milltir yr awr. Ar sgwteri dosbarth 3 mae yna olau, golau troi, golau rhybuddio a chorn a drych edrych i'r tu ôl wedi ei osod yn fewnol neu allanol. Rhaid eich bod wedi cofrestru sgwter dosbarth 3 gyda'r DVLA.

Rhestr wirio:

Dyma bethau i chi ystyried cyn prynu neu logi sgwter symudedd:

- ☐ Gallu gyrru'r sgwter symudedd yn ddiogel heb achosi difrod i eiddo CCG
- ☐ Gallu gyrru'r sgwter symudedd yn ddiogel heb achosi perygl i unrhyw berson
- ☐ Cynnal a chadw'r sgwter yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr
- ☐ Defnyddwyr sgwter i wneud trefniadau priodol rhag ofn iddynt dorri i lawr
- ☐ Trefnu cael yswiriant er mwyn sicrhau yswiriant rhag niwed personol, difrod i fannau mewnol ac allanol a niwed posib i eraill
- ☐ Pan fydd hi'n dywyll dylai defnyddwyr sgwter gael golau priodol ar y sgwter a bod yn fwy gofalus, defnyddio siaced adlewyrchol (High Vis) neu osod bandiau adlewyrchol mewn mannau amlwg ar y sgwter
- ☐ Cael lle addas i wefru'r sgwter symudedd. Ni chaniateir gwefru sgwteri mewn mannau cyffredin, coridorau nac ar ben grisiau oherwydd diogelwch tân. (Os nad oes yna fan addas ar gael, cysylltwch gyda CCG i drafod y posibilrwydd o gael sied sgwter)
- ☐ Os bydd eich cais am sied sgwter CCG yn llwyddiannus, ni ddylid defnyddio'r sied ar gyfer unrhyw ddiben arall heblaw am gadw a gwefru'r sgwter symudedd

Nodwch os gwelwch yn dda: Y risgiau ynghlwm â storio a gwefru sgwter symudedd mewn lleoliad anaddas

Mae sgwteri symudedd yn creu problemau o ran diogelwch tân oherwydd:

- Achosi rhwystrau mewn mannau cyffredin
- Rhwystro llwybrau dianc mewn eiddo tenantiaid
- Gwefru mewn llefydd amhriodol

Beth i wneud nesaf?

Os ydych yn teimlo eich bod yn cwrdd ag ystyriaethau o fewn y rhestr wirio a'ch bod am brynu neu logi sgwter symudedd neu os ydych eisiau mwy o wybodaeth am gael sied sgwter symudedd yna ffoniwch ni ar 0300 123 8084.

Yn parhau drosodd >>

CARTREFI CYMUNEDOL GWYNEDD

TAFLEN GWYBODAETH

Sgwter symudedd

Am fwy o wybodaeth

Am fwy o wybodaeth ar sgwteri symudedd, siediau sgwteri a ffurflen gais sied sgwter yna ffoniwch ni ar **0300 123 8084** neu ymholiadau@ccgwynedd.org.uk neu i lawrlwytho o'n gwefan www.ccgwynedd.org

Os hoffech gael y daflen hon mewn fformat gwahanol, fel llythrennau bras neu mewn iaith arall, cysylltwch â ni ar 0300 123 8084.

CARTREFI CYMUNEDOL GWYNEDD

FACT SHEET

Mobility scooter

Our aim:

Cartrefi Cymunedol Gwynedd (CCG) aims to provide guidance to all tenants before purchasing or leasing a mobility scooter. You must obtain written permission from CCG to store and charge a mobility scooter within sheltered housing or general flats (that share communal areas and hallways).

Different types of mobility scooters/ mobility assistances that are available:

CLASS 1 is manual wheel chairs and therefore is not considered as a mobility scooter.

CLASS 2 scooters which are known as powered wheelchairs or mobility scooter with 3 or 4 wheels that are intended for payment use with a maximum speed of 4 mph.

CLASS 3 scooters have 4 wheels with top speed of 8mph. All class 3 scooters are fitted with lights, direction indicators, hazard warning lights, a horn and also have an internally or externally fitted rear view mirror. All class 3 mobility scooters must be registered with the DVLA.

Checklist:

Here is a list of things for you to consider before purchasing or leasing a mobility scooter:

- ☐ Have the ability to safely drive the mobility scooter without causing damage to CCG's property
- ☐ Have the ability to safety drive the mobility scooter without causing any danger to any person
- ☐ Operate and maintain the scooter in accordance with the manufacture's instructions
- ☐ Have appropriate arrangement in place in case of breakdown
- ☐ Arrange insurance to cover personal injury to user, damage to internal and external areas and possible injuries to others
- ☐ During hours of darkness scooter users should have appropriate lighting on the scooters and be extra careful, use a reflective jacket or place reflective bands in prominent places on the scooter
- ☐ Have a suitable area available to charge the mobility scooter. Charging a mobility scooter in any part of the communal areas, corridors or stairwell is strictly forbidden due to fire safety. (If suitable area not available, contact CCG to discuss possibility of a scooter shed)
- ☐ If your application for a CCG scooter shed is successful, the shed is not to be used for any other purpose other than store and charge the mobility scooter

Please note: The risks involved with storing and charging a mobility scooter in an unsuitable location

Mobility scooters can present particular challenges in relation to fire safety due to:

- Causing obstruction in a communal area
- Blocking escape routes in tenants property
- Inappropriate charging

What to do next?

If you feel that you meet the considerations within the checklist and would like to purchase or lease a mobility scooter, or if you would like more information about the possibility of using a designated scooter shed, please contact us on 0300 123 8084.

Continues >>

CARTREFI CYMUNEDOL GWYNEDD

FACT SHEET

Mobility scooter

For more information

For more information on mobility scooters, scooter sheds and scooter shed application form please contact us on **0300 123 8084** or enquiries@ccgwynedd.org.uk or to download from our website www.ccgwynedd.org

If you would like to receive this leaflet in a different format, such as Braille, large text or in another language, contact us on 0300 123 8084.

CARTREFI CYMUNEDOL GWYNEDD